OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 884

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2, hepgorer paragraffau (4) i (7).

(3) Ar ôl rheoliad 2, mewnosoder—

"**Aelwydydd estynedig**

**2A.**—(1) Caiff hyd at bedair aelwyd gytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(2) Er mwyn cytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig, rhaid i bob oedolyn yn yr aelwydydd o dan sylw gytuno.

(3) Pan fo aelwydydd yn cytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig, mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn (ac eithrio yn y rheoliad hwn) at "aelwyd" i'w ddarllen fel pe bai'n cynnwys yr aelwydydd sydd wedi cytuno felly.

(4) Ni chaiff aelwyd ond cytuno i gael ei thrin fel pe bai mewn un aelwyd estynedig.

(5) Mae aelwyd yn peidio â cael ei thrin fel pe bai mewn aelwyd estynedig os yw unrhyw oedolyn yn yr aelwyd yn peidio â chytuno i gael ei drin fel pe bai yn yr aelwyd estynedig.

(6) Os yw aelwyd yn peidio â chael ei thrin fel pe bai mewn aelwyd estynedig, ni chaiff yr aelwyd gytuno i gael ei thrin fel pe bai mewn aelwyd estynedig gydag unrhyw aelwyd arall.

(7) Mae paragraff (8) yn gymwys pan fo dwy aelwyd—

(a) wedi cytuno i gael eu trin fel un aelwyd (estynedig) at ddibenion y Rheoliadau hyn cyn 22 Awst 2020, neu

(b) wedi eu trin fel pe baent wedi gwneud hynny yn unol â rheoliad 2(7) o'r Rheoliadau hyn cyn y dyddiad hwnnw.

(8) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, o ran yr aelwydydd—

(a) maent i'w trin fel pe baent wedi cytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig yn unol â'r rheoliad hwn, a

(b) cânt gytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig gyda hyd at ddwy aelwyd arall yn unol â'r rheoliad hwn."

(4) Yn rheoliad 14, ar ôl paragraff 2(h) mewnosoder—

(**1**) O.S. 2020/725 (Cy. 162), fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/752 (Cy. 169)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/803 (Cy. 176)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/820 (Cy. 180)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/843 (Cy. 186)) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/867 (Cy. 189)).

"(hza) cymryd rhan mewn cynulliad o ddim mwy na 30 o bobl mewn mangre agored—

(i) i ddathlu gweinyddiad priodas neu ffurfiad partneriaeth sifil sy'n digwydd ar neu ar ôl 22 Awst 2020,

(ii) i ddathlu bywyd person ymadawedig y cynhelir ei angladd ar neu ar ôl 22 Awst 2020;".

(5) Yn rheoliad 14A, ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(3) Ond nid yw'r cyfyngiad ym mharagraff (1) yn gymwys i ddigwyddiad awyr agored wedi ei drefnu—

(a) sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru,

(b) nad yw mwy na 100 o bobl yn bresennol ynddo (heb gynnwys personau sy'n gweithio yn y digwyddiad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo), ac

(c) sydd wedi ei gynnal yn unol ag unrhyw amodau a bennir yn ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru.

(4) At ddibenion paragraff (3)(a), mae digwyddiad yn "digwyddiad awyr agored wedi ei drefnu"—

(a) os yw'n digwydd yn yr awyr agored,

(b) os yw wedi ei drefnu gan—

(i) busnes,

(ii) corff cyhoeddus neu sefydliad elusennol, llesiannol neu ddyngarol,

(iii) clwb neu sefydliad gwleidyddol, neu

(iv) corff llywodraethu cenedlaethol camp neu weithgaredd arall, ac

(c) os yw'r person sy'n ei drefnu wedi—

(i) cynnal asesiad risg a fyddai'n bodloni gofynion rheoliad 3 o Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999(**2**), pa un a yw'r person yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau hynny ai peidio, a

(ii) wedi cydymffurfio â gofynion rheoliadau 12(2) a 13(1).

(5) At ddibenion paragraff (4)(c)—

(a) mae rheoliad 3 o Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 yn gymwys fel pe bai'r digwyddiad yn ymgymeriad a wneir gan y person sy'n ei drefnu;

(b) mae rheoliad 12(2) o'r Rheoliadau hyn yn gymwys fel pe bai'r man lle y mae'r digwyddiad yn digwydd yn fangre agored y mae'r person sy'n trefnu'r digwyddiad yn gyfrifol amdani."

(6) Yn rheoliad 18(9B), yn lle "achos o dan unrhyw ddeddfiad ac eithrio'r" rhodder "unrhyw achos ac eithrio achos o dan y".

(**2**) O.S. 1999/3242. Diwygiwyd rheoliad 3 gan O.S. 2005/1541, O.S. 2015/21 ac O.S. 2015/1637.